Hawdd ei Ddeall

# Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




## Nodiadau o'r 14eg cyfarfod Ddydd Mercher 15 Hydref 2025.

## Roedd y cyfarfod ar-lein ar Zoom.



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Sam Williams** – Anabledd Dysgu Cymru, cyd-Ysgrifennydd
- **Sara Pickard** – Mencap Cymru, cyd-Ysgrifennydd
- **Mark Isherwood AS** – Aelod o'r Senedd
- **Sally Thomas** – Rhiant
- **Joe Powell** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Zoe Richards** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Lucy O'Leary** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Gerraint Jones-Griffiths** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Kai Jones** – Anabledd Dysgu Cymru
- **Victoria Waller** – Ffrindiau Gig Cymru

- **Adele Rose-Morgan** – Parent
- **Janis Griffiths** – Stolen Lives
- **Darren Smith**
- **Tracy Lowe** – Sgowtiaid Cymru
- **Eloise Tong** – Theatr Hijinx
- **Leah McKinney**
- **Sarah Washbrook** – Rhiant
- **Jac Hughes**
- **Jan Paterson** – Epilepsy Action
- **Rachel Martin**
- **Eryl Williams** – Cyngor Gwynedd
- **Gabrielle Preece**
- **Jenny Mushiringani Monjero** – Llais Cymru
- **Daniel Bray** – Your Voice Advocacy
- **Danielle Richards** – Cyngor Abertawe
- **Tom Morris** – Cyngor Abertawe
- **Wayne Crocker** – Mencap Cymru
- **Sion Jones** – Mencap Cymru
- **Stuart Todd** – Prifysgol De Cymru
- **Julie Isaac-Evans** – Addysg Oedolion Cymru
- **Andrew Jenkins** – Senedd
- **James Radcliffe** – Cymdeithas Awtistig Genedlaethol
- **Anne-Marie Carpenter** – Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- **Gillian Eastwood**
- **Kelly Stuart** – Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Donna Thomas** – Here2There
- **Claire Jones**

# Ynglŷn â'r ddogfen hon




Mae hon yn fersiwn hawdd ei darllen. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen las trwm** yn anodd eu deall. Maent wedi cael eu hesbonio mewn blwch o dan y gair. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn **glas** yn feddwl ar **dudalen 16.**

# 1. Croeso a chyflwyniadau



Mae **Sioned Williams** yn Aelod o'r Senedd ac yn **Gadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol.

**Cadeirydd** y grŵp yw'r person sy'n gyfrifol am y cyfarfodydd.

Croesawodd Sioned bawb i'r cyfarfod.

Cyflwynodd hi'r siaradwr cyntaf, Sally Thomas.

# 2. Cyflwyniad am broblemau gyda chymorth i deithwyr

Mam i Danny, dyn ifanc ag anabledd dysgu, yw Sally Thomas. Siaradodd Sally am y problemau y mae Danny wedi'u cael wrth ddefnyddio **Gwasanaeth Cymorth i Deithwyr Trafnidiaeth Cymru**.



Dylai'r gwasanaeth hwn helpu pobl anabl pan fyddant yn teithio ar drenau.



Dangosodd Sally neges fideo gan Danny.



Mae Danny yn aelod o Theatr Hijinx ac mae eisiau bod yn actor. Dechreuodd gwrs drama ond mae angen help arno i deithio yno.

Mae gallu teithio yn bwysig i Danny. Mae'n ei helpu i fynd i Hijinx a dysgu sgiliau newydd.



Nid yw Danny yn teimlo'n ddiogel yn teithio heb gymorth. Mae'n poeni na fydd Trafnidiaeth Cymru yn ei gefnogi'n iawn.



Gwnaeth Danny 6 wythnos o hyfforddiant teithio. Helpodd hyn ef i ddod i arfer â'r daith a theimlo'n fwy hyderus.



Ond pan gyrhaeddon nhw Gaerdydd o Abertawe, ni ddaeth neb i helpu Danny.



Mae Sally wedi cwyno am hyn i Trafnidiaeth Cymru sawl gwaith am nad yw Danny yn cael y gefnogaeth gywir yng ngorsaf Caerdydd.



Nid yw hi wedi cael atebion clir ynglŷn ag unrhyw beth yn gwella. Mae hi'n dal i aros am wybodaeth ynglŷn â beth fydd yn newid.



Dywedodd Sally fod Danny wedi cael cefnogaeth dda gan y Gwasanaeth Cymorth i Deithwyr yng ngorsaf Abertawe ond nid yng Nghaerdydd.



Mae Sally yn credu bod angen gwell hyfforddiant ar staff yng ngorsaf Caerdydd.



Diolchodd Sioned i Sally am ei sgwrs. Dywedodd fod yn rhaid i drafnidiaeth fod yn **gynhwysol**.

Mae **cynhwysol** yn golygu y gall pawb ddefnyddio rhywbeth mewn ffordd ddiogel a theg.



Pan nad yw cludiant yn **gynhwysol**, gall achosi llawer o broblemau i bobl anabl.

# 3. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau a rhannodd rhai eu syniadau.



Dywedodd Eloise Tong o Hijinx fod rhai teithiau wedi'u marcio fel rhai sydd wedi'u cwblhau hyd yn oed pan nad oedd neb wedi cwrdd â'r teithiwr. Gofynnodd i Trafnidiaeth Cymru pa mor aml mae hyn yn digwydd a pham nad yw'r system yn dangos unrhyw broblemau. Dywedodd fod pobl yn cael eu gadael heb gymorth.



Dywedodd Sioned y bydd hi'n rhannu stori Danny yn y Senedd. Mae hi'n dal i aros am gyfarfod gyda Trafnidiaeth Cymru.



Cytunodd y grŵp i ysgrifennu at Brif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru, James Price, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth, Ken Skates, ynglŷn â'r problemau gyda Chymorth i Deithwyr.



Siaradodd Adele Rose Morgan am waith lleol yn Abertawe ar anabledd dysgu a thrafnidiaeth.



Dywedodd Sally fod y staff yn Abertawe wedi bod yn wych. Dywedodd ei bod hi'n drist nad yw staff Caerdydd yn rhoi'r un gefnogaeth.



Siaradodd Daniel Bray am ddefnyddio bysiau yn Abertawe a Chastell-nedd. Mae'n falch bod negeseuon llais newydd ar fysiau. Maen nhw'n dweud wrthych chi beth yw'r arhosfan nesaf.



Dywedodd Wayne Crocker o Mencap fod eu llinell gymorth yn cael llawer o alwadau am broblemau trafnidiaeth. Hoffai ef gael swyddog llinell gymorth trafnidiaeth **hygyrch** i roi cyngor gwell.




Mae **hygyrch** yn golygu bod rhywbeth yn hawdd i bawb ei ddefnyddio, gan gynnwys pobl anabl.

# 4. Cyflwyniad am eiriolaeth, hunan-eiriolaeth a'r heriau yng Nghymru



Siaradodd Joe Powell o Bobl yn Gyntaf Cymru Gyfan am **eiriolaeth** a **hunan-eiriolaeth** yng Nghymru.

Mae **eiriolaeth** yn golygu bod rhywun yn siarad drosoch chi.



Mae **hunan-eiriolaeth** yn golygu eich bod chi'n siarad drosoch eich hun.



Mae **hunan-eiriolaeth** yn bwysig oherwydd bod yn rhaid i bobl ag anabledd dysgu gael dweud eu dweud mewn penderfyniadau am eu bywydau.




Bu Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn gweithio gydag ADSS Cymru ar adroddiad i Lywodraeth Cymru am **eiriolaeth** yng Nghymru. Dydyn nhw ddim wedi cael ymateb eto.



Mae rhai problemau sy'n ymwneud ag **eiriolaeth** yn cynnwys:

- Mae rhagor o bobl angen **eiriolaeth** ond mae'r arian i dalu amdano wedi aros yr un fath.
- Mae mwy o waith argyfwng oherwydd bod gwasanaethau'n dod i ben.
- Mae adnoddau'n cael eu rhannu a gall hyn wneud **eiriolaeth** anabledd dysgu yn wannach.
- Nid oes digon o **eiriolaeth** ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio geiriau neu sydd ag anghenion cymhleth.



Mae problemau gyda **hunan-eiriolaeth** cynnwys:

- Mae'r **Cynllun Grant Eiriolaeth** wedi dod i ben.
- Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan brosiect yn hytrach na pherson.
- Gall pobl ag anghenion cymhleth gael canlyniadau gwaeth oherwydd bod staff meddygol yn siarad drostyn nhw.

Dywedodd Joe fod hyn yn bwysig oherwydd gall y problemau hyn arwain at:



- Llai o wasanaethau **eiriolaeth**. Llai o **eiriolaeth** ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.



- Mwy o risg i bobl ag anabledd dysgu.



- Rhagor o adegau pan na all pobl siarad drostynt eu hunain.



- Pobl yn cael llai o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.



Dywedodd Joe fod angen dysgu **hunan-eiriolaeth** a'i gefnogi. Dywedodd fod cymryd rhan mewn cymdeithas yn helpu i herio agweddau at anabledd dysgu.

## 5. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau a rhannu eu syniadau.




Dywedodd Wayne Crocker nad oedd pobl yn clywed digon am arolwg a digwyddiadau Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Gofynnodd faint o bobl anabl a gymerodd ran a rhannu eu barn ar **hygyrchedd** a gwasanaethau.



Mae **hygyrchedd** yn ymwneud â pha mor hawdd yw rhywbeth i'w ddefnyddio, gan gynnwys i bobl anabl.



Dywedodd Janis Griffiths fod **eiriolaeth** yn bwysig i'w mab. Mae hi'n poeni nad yw rhai **eiriolwyr** yn cael yr hyfforddiant cywir ar gyfer pobl sydd ag anghenion cyfathrebu gwahanol.



Dywedodd Adele Rose Morgan ei bod hi'n anodd dod o hyd i gefnogaeth ar gyfer **eiriolaeth heb gyfarwyddyd**. **Eiriolaeth heb gyfarwyddyd** yw pan fydd **eiriolwr** yn siarad dros rywun na all ddweud wrthyn nhw beth maen nhw ei eisiau.




Gofynnodd Wayne am wneud cynllun ar gyfer cefnogi **hunan-eiriolaeth** lleol sy'n cynnwys costau.



Mae Wayne a Joe yn ymuno â **Bwrdd Ymgynghorol ar Gydraddoldeb Tai ac Adfywio Cymunedol** newydd. Gallai'r grŵp hwn helpu i newid sut mae tai a chymunedau'n cael eu gwneud ar gyfer pobl anabl.

## 6. Unrhyw fater arall a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol




Gofynnodd Sioned a oedd unrhyw beth yr hoffai pobl siarad amdano mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.



Gofynnodd Adele i'r grŵp siarad mwy am addysg **gynhwysol**. Dywedodd y dylai'r grŵp drafod y **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol**.




Hefyd **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**. Dywedodd fod angen i bobl wybod mwy am yr hawliau hyn.



Siaradodd Wayne am **Arolwg Cyflwr y Genedl y Consortiwm Anabledd Dysgu**. Gofynnodd yr arolwg i bobl ag anabledd dysgu a theuluoedd beth sydd angen newid yng Nghymru.



Daeth yr arolwg i ben ar 14 Tachwedd. Bydd yr adroddiad yn cael ei lansio yn y Senedd ar 3 Rhagfyr 2025.

# 7. Y cyfarfod nesaf




Cynhelir y cyfarfod nesaf ar:
**Dydd Mercher 10 Rhagfyr 2025** am 12:15 pm.
Ar-lein ar Zoom.



Dylai unrhyw un sydd â syniadau ar gyfer y cyfarfod anfon e-bost at
Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk
neu Sara Pickard:
SaraE.Pickard@mencap.org.uk.




Diolchodd Sioned i bawb am ddod i'r cyfarfod a rhannu eu syniadau.




Gallwch ddod o hyd i holl agendâu hawdd eu darllen y grŵp trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma: https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/

# Geiriau anodd

## Cadeirydd
Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

## Cynhwysol
Mae cynhwysol yn golygu y gall pawb ddefnyddio rhywbeth mewn ffordd ddiogel a theg.

## Eiriolaeth
Mae eiriolaeth yn golygu bod rhywun yn siarad drosoch chi.

## Eiriolwr
Eiriolwr yw rhywun sy'n siarad dros berson neu grŵp.

## Hunan-eiriolaeth
Mae hunan-eiriolaeth yn golygu eich bod chi'n siarad drosoch chi'ch hun.

## Hygyrchedd
Mae hygyrchedd yn ymwneud â pha mor hawdd yw rhywbeth i'w ddefnyddio, gan gynnwys i bobl anabl.